

Gweddi OS

Arglwydd Iesu,
daethost er mwyn i bawb gael bywyd yn ei holl gyflawnder.
Pan roddaist fwyd i bobl newynog, bwytaodd pawb a chael digon.

Gwyddom fod digon o fwyd i bawb
OS wnawn ni ddim edrych y ffordd arall
OS rown ni'r grym i'r bobl dlotaf i fwydo eu hunain
OS defnyddiwn y tir i dyfu bwyd, nid tanwydd
OS wnawn ni amddiffyn ffermwyr tlawd rhag colli eu tir
OS caiff trethi eu talu lle maent yn ddyledus

Felly, Arglwydd Iesu,
cyfeiria'n sylw i weld y tu hwnt i'n angen ein hunain,
cryfha'r tlawd newynog a'u hawliau
Cadw ac amddiffyn y tir sy'n rhoi bwyd
Ymdrecha gyda ni am gyfiawnder treth, cyfiawnder masnach, cyfiawnder
hinsawdd

ac wrth i'n mudiad a'n hymgyrch dyfu a lledaenu
Iesu, Bara'r Bywyd
BENDITHIA'N EIRIOLAETH A'N GWEITHREDOEDD
EIN HYMRWYMIAD A'N GOFAL
Fel y mae dy gariad wedi'n galw
BOED I NI DDECHRAU GYDA HYDER
Fel y mae dy gariad wedi'n cynnal
BOED I NI DDECHRAU GYDA DEWRDER
Fel y mae dy gariad wedi'n bendithio
BOED I NI DDECHRAU GYDA GOBAITH
FEL NA FYDD UNRHYW UN YN NEWYNU.